OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 789 (Cy.83)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*19 Mawrth 2008*
Yn dod i rym - -	*15 Ebrill 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 7 a 37 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ac a freiniwyd ynddynt bellach(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) (Diwygio) 2008. Mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 15 Ebrill 2008.

Diwygio

2. Mae Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003(**2**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn —

(a) yn erthygl 3, ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

"(1A) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys yn yr amgylchiadau a nodir yn atodlen 1A.";

(b) yn erthygl 3, hepgorer paragraff (6);

(c) mewnosoder yr Atodlen a ganlyn —

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 2003/1968 (Cy.213).

"ATODLEN
1A

AMGYLCHIADAU PAN NA FO ERTHYGL 3 YN GYMWYS

Teithiau a wneir o fewn menter ffermio unigol

1. Cludo anifeiliaid o fewn menter ffermio unigol o dan un berchenogaeth.

Teithiau rhwng yr un ddau bwynt

2.—(1) Cludo anifeiliaid —

(a) rhwng yr un ddau bwynt;

(b) yn ystod un diwrnod; ac

(c) mewn cyfrwng cludo a ddefnyddir at y diben hwnnw yn unig,

os cydymffurfir ag erthygl 3 o ran y teithiau cyntaf ac olaf yn ystod diwrnod.

(2) Yn y paragraff hwn, mae cludo anifeiliaid yn digwydd yn ystod un diwrnod hyd yn oed os —

(a) dechreuir y daith olaf ond nas cwblheir ar y diwrnod dan sylw; a

(b) yn achos anifail carnog a fu'n cymryd rhan mewn digwyddiad a ddigwyddodd neu'n sy'n parhau i ddigwydd yn noswaith y diwrnod dan sylw, yw'r daith olaf yn dechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y digwyddiad hwnnw, p'un a yw'n dechrau cyn hanner nos ai peidio.

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i deithiau rhwng dwy set o safleoedd gwerthu.

Teithiau yn ôl ac ymlaen i sioeau da byw

3. Cludo anifeiliaid o'u mangre tarddiad i sioe da byw ac yn ôl, mewn amgylchiadau heblaw'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff 2, os—

(a) yw'r cyfrwng cludo a ddefnyddir i gludo'r anifeiliaid hynny yn mynd yn uniongyrchol o'r safle tarddiad i'r sioe ac nad yw'n ymadael â'r sioe cyn y daith yn ôl;

(b) yr unig anifeiliaid ar y cyfrwng cludo yn y sioe yw'r anifeiliaid a gludodd i'r sioe;

(c) defnyddir y cyfrwng cludo yn unig i gludo, ar y daith yn ôl, anifeiliaid a gludwyd ynddo i'r sioe; ac

(ch) dychwelir y cyfrwng cludo o'r sioe yn uniongyrchol i'r safle tarddiad.

Dadlwytho dros dro.

4. Pan fo anifeiliaid wedi cael eu dadlwytho o gyfrwng cludo yn unig er mwyn cael bwyd neu ddŵr, neu at ryw ddiben dros dro arall, ac yna eu hail-lwytho.".